

Bywoliaeth Reithoral Y Bontfaen

Blwyddyn C

Y Deuddegfed Sul wedi'r Drindod

Emyn I

Yr Iesu atgyfododd
Yn ogoneddus iawn;
Daeth bore teg a hyfryd
'R ôl stormus ddu brynhawn:
Y gadwyn fawr a dorrwyd
Ar wawr y trydydd dydd;
Gorchfygodd angau'i hunan,
O'r carchar daeth yn rhydd,

I fyny daeth o Edom,
A'i wisg yn goch ei lliw,
Ni allsai un creadur
Mewn cadwyn gadw Duw;
Fe dorrodd rym yr angau,
Agorodd ddrysau'r bedd,
Palmantodd ffordd o'r ddaear
I ganol gwlad yr hedd.

Mi welaf yn ei Fywyd
Y ffordd i'r nefoedd fry,
Ac yn ei Angau'r taliad
A roddwyd dros of i;
Yn ei Esgyniad gwelaf
Drigfannau pur y nef,
A'r Wledd dragwyddol berffaith
Gaf yno gydag ef.

W. Williams (Pantycelyn)

Y Colect

Hollalluog a thragwyddol Dduw, rwyt
bob amser yn barotach i wrando nag
ydym ni i weddio ac yn arfer rhoi mwy
nag a ddeisyfwn na'i haeddu: tywallt
arnom amllder dy drugaredd, gan faddau

Year C

The Twelfth Sunday after Trinity

Hymn I

Jesus rose again
Very gloriously;
The fair and delightful morning came
After a stormy, black afternoon;
The great chain he broke,
At dawn on the third day;
He overcame death itself -
From the prison he came free.

Up he came from Edom,
With his garments red in colour,
No creature could
In a chain keep my God;
He broke the force of death,
He opened the doors of the grave;
He paved a way from the earth
To the centre of the land of peace.

I see in his life
The way to heaven above,
And in his death the payment
He gave for me;
In his ascension I see
The pure residences of heaven
And the eternal, perfect feast,
I will have there with Him.

tr. 2016, 18 Richard B Gillion

The Collect

Almighty and everlasting God, you are
always more ready to hear than we to
pray and to give more than either we
desire or deserve: pour down upon us
the abundance of your mercy, forgiving

inni'r pethau y mae ein cydwybod yn eu hofni a rhoi inni'r pethau daionus hynny nad ydym yn deilwng i ofyn amdanynt, ond trwy haeddiannau a chyfryngdod lesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

Amen.

Jeremeia 18.1-11

Dyma'r gair a ddaeth at Jeremeia oddi wrth yr Arglwydd: "Cod a dos i lawr i dŷ'r crochenydd; yno y paraf i ti glywed fy ngeiriau." Euthum i lawr i dŷ'r crochenydd, a'i gael yn gweithio ar y droell. A difwynwyd yn llaw'r crochenydd y llestr pridd yr oedd yn ei lunio, a gwnaeth ef yr eildro yn llestr gwahanol, fel y gwelai'n dda. Yna daeth gair yr Arglwydd ataf, "Oni allaf fi eich trafod chwi, tŷ Israel, fel y mae'r crochenydd hwn yn ei wneud â'r clai?" medd yr Arglwydd. "Fel clai yn llaw'r crochenydd, felly yr ydych chwi yn fy llaw i, tŷ Israel. Ar unrhyw funud gallaf benderfynu diwreiddio a thynnu i lawr, a difetha cenedl neu deyrnas. Ac os bydd y genedl honno y lleferais yn ei herbyn yn troi oddi wrth ei drygioni, gallaf ailfeddwl am y drwg a fwriedais iddi. Ar unrhyw funud gallaf benderfynu adeiladu a phlannu cenedl neu deyrnas, ond os gwna'r genedl honno ddrygioni yn fy ngolwg, a gwrthod gwrandao arnaf, gallaf ailfeddwl am y da a addewais iddi. Yn awr dywed wrth bobl Jwda ac wrth breswylwyr Jerwsalem, 'Fel hyn y dywed

us those things of which our conscience is afraid and giving us those good things which we are not worthy to ask but through the merits and mediation of Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. **Amen.**

Jeremiah 18.1-11

The word that came to Jeremiah from the Lord: 'Come, go down to the potter's house, and there I will let you hear my words.' So I went down to the potter's house, and there he was working at his wheel. The vessel he was making of clay was spoiled in the potter's hand, and he reworked it into another vessel, as seemed good to him. Then the word of the Lord came to me: Can I not do with you, O house of Israel, just as this potter has done? says the Lord. Just like the clay in the potter's hand, so are you in my hand, O house of Israel. At one moment I may declare concerning a nation or a kingdom, that I will pluck up and break down and destroy it, but if that nation, concerning which I have spoken, turns from its evil, I will change my mind about the disaster that I intended to bring on it. And at another moment I may declare concerning a nation or a kingdom that I will build and plant it, but if it does evil in my sight, not listening to my voice, then I will change my mind about the good that I had intended to do to it. Now, therefore, say to the people of Judah and the

yr Arglwydd: Wele fi'n llunio drwg yn eich erbyn, ac yn cynllunio yn eich erbyn. Dychwelwch, yn wir, bob un o'i ffordd ddrwg, a gwella'ch ffyrdd a'ch gweithredoedd.'

Dyma air yr Arglwydd.

Diolch a fo i Dduw.

Salm 139.1-5, 12-17

A. Mor ddwfn i mi yw dy feddyliau

O Dduw

Arglwydd, yr wyt wedi fy chwilio a'm hadnabod: Gwyddost ti pa bryd y byddaf yn eistedd ac yn codi; yr wyt wedi deall fy meddwl o bell; yr wyt wedi mesur fy ngherdded a'm gorffwys: ac yr wyt yn gyfarwydd â'm holl ffyrdd. **A.**

Oherwydd nid oes air ar fy nhafod: heb i ti Arglwydd ei wybod i gyd. Yr wyt wedi cau amdanaf yn ôl ac ymlaen: ac wedi gosod dy law dros of. Y mae'r wybodaeth hon yn rhy ryfedd i mi: y mae'n rhy uchel i mi ei chyrraedd. **A.**

Ti a greodd fy ymysgaroedd: a'm llunio yng nghroth fy mam. Clodforaf di, oherwydd yr wyt yn ofnadwy a rhyfeddol: ac y mae dy weithredoedd yn rhyfeddol; Yr wyt yn fy adnabod mor dda: ni chuddiwyd fy ngwneuthuriad oddi wrthyt. **A.**

Pan oeddwn yn cael fy ngwneud yn y dirgel: ac yn cael fy llunio yn nyfnderoedd y ddaear. Gwelodd dy lygaid fy nefnydd di-lun: y mae'r cyfan wedi ei ysgrifennu yn dy lyfr; Cafodd fy nyddiau eu ffurfio: pan nad oedd yr un ohonynt. **A.**

Mor ddwfn i mi yw dy feddyliau O Dduw: ac mor lluosog eu nifer! Os

inhabitants of Jerusalem: Thus says the Lord: Look, I am a potter shaping evil against you and devising a plan against you. Turn now, all of you from your evil way, and amend your ways and your doings.

This is the word of the Lord.

Thanks be to God.

Psalm 139.1-5, 12-17

R. How deep are your counsels to me, O God!

O Lord, you have searched me out and known me: you know my sitting down and my rising up; you discern my thoughts from afar. You mark out my journeys and my resting place: and are acquainted with all my ways. **R.**

For there is not a word on my tongue: but you, O Lord, know it altogether. You encompass me behind and before: and lay your hand upon me. Such knowledge is too wonderful for me: so high that I cannot attain it. **R.**

For you yourself created my inmost parts: you knit me together in my mother's womb. I thank you, for I am fearfully and wonderfully made: marvellous are your works, my soul knows well. **R.**

My frame was not hidden from you: when I was made in secret and woven in the depths of the earth. Your eyes beheld my form, as yet unfinished: already in your book were all my members written, As day by day they were fashioned: when as yet there was none of them. **R.**

How deep are your counsels to me, O God!: How great is the sum of them! If I

cyfrifaf hwy, y maent yn amlach na'r tywod: a phe gorffennwn hynny, byddit ti'n parhau gyda mi. **A.**

Philemon 1-21

Paul, carcharor Crist Iesu, a Timotheus ein brawd, at Philemon, ein cydweithiwr annwyl, ac Apffia, ein chwaer, ac Archipus, ein cydfilwr; ac at yr eglwys sy'n ymgynnull yn dy dŷ. Gras a thangnefedd i chwi oddi wrth Dduw ein Tad a'r Arglwydd Iesu Grist. Yr wyf yn diolch i'm Duw bob amser wrth gofio amdanat yn fy ngweddiau, oherwydd fy mod yn clywed am dy gariad, a'r ffydd sydd gennyf tuag at yr Arglwydd Iesu ac at yr holl saint. Yr wyf yn deisyf y bydd y ffydd, sy'n gyffredin i ti a ninnau, yn gyfrwng effeithiol i ddyfnhau dealltwriaeth o'r holl ddaioni sy'n eiddo i ni yng Nghrist. Oherwydd cefais lawer o lawenydd a symbyliad trwy dy gariad, gan fod calonnau'r saint wedi eu llonni drwot ti, fy mrawd. Gan hynny, er bod gennyf berffaith ryddid yng Nghrist i roi gorchymyn i ti ynglŷn â'th ddyletswydd, yr wyf yn hytrach, ar sail cariad, yn apelio atat. Ie, myfi, Paul, a mi'n llysgennad Crist Iesu, ac yn awr hefyd yn garcharor drosto, apelio yr wyf atat ar ran fy mhlentyn, Onesimus, un y deuthum yn dad iddo yn y carchar. Bu ef gynt yn ddi-fudd i ti, ond yn awr y mae'n fuddiol iawn i ti ac i minnau. Yr wyf yn ei anfon yn ôl atat, ac yntau bellach yn rhan ohonof fi. Mi hoffwn ei gadw gyda mi, er mwyn iddo weini arnaf yn dy le di

count them, they are more in number than the sand: and at the end, I am still in your presence. **R.**

Philemon 1-21

Paul, a prisoner of Christ Jesus, and Timothy our brother, To Philemon our dear friend and co-worker, to Apphia our sister, to Archippus our fellow-soldier, and to the church in your house: Grace to you and peace from God our Father and the Lord Jesus Christ. When I remember you in my prayers, I always thank my God because I hear of your love for all the saints and your faith towards the Lord Jesus. I pray that the sharing of your faith may become effective when you perceive all the good that we may do for Christ. I have indeed received much joy and encouragement from your love, because the hearts of the saints have been refreshed through you, my brother. For this reason, though I am bold enough in Christ to command you to do your duty, yet I would rather appeal to you on the basis of love--and I, Paul, do this as an old man, and now also as a prisoner of Christ Jesus. I am appealing to you for my child, Onesimus, whose father I have become during my imprisonment. Formerly he was useless to you, but now he is indeed useful both to you and to me. I am sending him, that is, my own heart, back to you. I wanted to keep him with me, so that he might be of service to me in your place during

tra byddaf yng ngharchar o achos yr Efengyl. Ond ni fynnwn wneud dim heb dy gydsyniad di, rhag i'th garedigrwydd fod o orfod, nid o wirfodd. Efallai, yn wir, mai dyma'r rheswm iddo gael ei wahanu oddi wrthyt dros dro, er mwyn iti ei dderbyn yn ôl am byth, nid fel caethwas mwyach ond fel un sy'n fwy na chaethwas, yn frawd annwyl — annwyl iawn i mi, ond anwylach fyth i ti, fel dyn ac fel Cristion. Os wyt, felly, yn fy ystyried i yn gymar, derbyn ef fel pe bait yn fy nerbyn i. Os gwnaeth unrhyw gam â thi, neu os yw yn dy ddyled, cyfrif hynny arnaf fi. Yr wyf fi, Paul, yn ysgrifennu â'm llaw fy hun: fe dalaf fi yn ôl, a hynny heb sôn dy fod ti'n ddyledus i mi hyd yn oed amdanat dy hun. Ie, frawd, mi fynnwn gael ffafr gennyf ti yn yr Arglwydd; llonna fy nghalon i yng Nghrist. Yr wyf yn ysgrifennu atat mewn sicrwydd y byddi'n ufuddhau; gwn y byddi'n gwneud mwy nag yr wyf yn ei ofyn.

Luc 14.25-33

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Luc

Gogoniant i ti, O Arglwydd.

Yr oedd tyrfaoedd niferus yn teithio gydag ef, a throes a dweud wrthynt, "Os daw rhywun ataf fi heb gasáu ei dad ei hun, a'i fam a'i wraig a'i blant a'i frodyr a'i chwiorydd, a hyd yn oed ei fywyd ei hun, ni all fod yn ddisgybl imi. Pwy bynnag nad yw'n cario ei groes ei hun ac yn dod ar fy ôl i, ni all fod yn ddisgybl

my imprisonment for the gospel; but I preferred to do nothing without your consent, in order that your good deed might be voluntary and not something forced. Perhaps this is the reason he was separated from you for a while, so that you might have him back for ever, no longer as a slave but as more than a slave, a beloved brother--especially to me but how much more to you, both in the flesh and in the Lord. So if you consider me your partner, welcome him as you would welcome me. If he has wronged you in any way, or owes you anything, charge that to my account. I, Paul, am writing this with my own hand: I will repay it. I say nothing about your owing me even your own self. Yes, brother, let me have this benefit from you in the Lord! Refresh my heart in Christ. Confident of your obedience, I am writing to you, knowing that you will do even more than I say.

Luke 14.25-33

Listen to the gospel of Christ according to St Luke

Glory to you, O Lord.

Now large crowds were travelling with him; and he turned and said to them, 'Whoever comes to me and does not hate father and mother, wife and children, brothers and sisters, yes, and even life itself, cannot be my disciple. Whoever does not carry the cross and follow me cannot be my disciple. For

imi. Oherwydd os bydd un ohonoch chwi yn dymuno adeiladu twr, oni fydd yn gyntaf yn eistedd i lawr i gyfrif y gost, er mwyn gweld a oes ganddo ddigon i gwblhau'r gwaith? Onid e, fe all ddigwydd iddo osod y sylfaen ac wedyn fethu gorffen, nes bod pawb sy'n gwyllo yn mynd ati i'w watwar gan ddweud, 'Dyma rywun a ddechreuodd adeiladu ac a fethodd orffen.' Neu os bydd brenin ar ei ffordd i ryfela yn erbyn brenin arall, oni fydd yn gyntaf yn eistedd i lawr i ystyried a all ef, â deng mil o filwyr, wrthsefyll un sy'n ymosod arno ag ugain mil? Os na all, bydd yn anfon llysgenhadon i geisio telerau heddwch tra bo'r llall o hyd ymhell i ffwrdd. Yr un modd, gan hynny, ni all neb ohonoch nad yw'n ymwrthod â'i holl feddiannau fod yn ddisgybl i mi.

Dyma Efengyl yr Arglwydd.

Moliant i ti, O Grist.

Yr Ymbiliau

Gweddiwn dros Eglwys Dduw yng Nghrist Iesu, a thros bob un yn ôl eu hangen.

O Dduw, creawdwr a chynhaliwr pawb, gweddiwn dros bobloedd o bob hil ac ym mhob math o angen: hysbysa dy ffyrdd ar y ddaear, dy allu achubol ymhlith yr holl genhedloedd ..

Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.

Gweddiwn dros dy Eglwys ledled y byd

which of you, intending to build a tower, does not first sit down and estimate the cost, to see whether he has enough to complete it? Otherwise, when he has laid a foundation and is not able to finish, all who see it will begin to ridicule him, saying, "This fellow began to build and was not able to finish." Or what king, going out to wage war against another king, will not sit down first and consider whether he is able with ten thousand to oppose the one who comes against him with twenty thousand? If he cannot, then, while the other is still far away, he sends a delegation and asks for the terms of peace. So therefore, none of you can become my disciple if you do not give up all your possessions.

This is the Gospel of the Lord.

Praise to you, O Christ.

The Intercessions

Let us pray for the Church of God in Christ Jesus, and for all people according to their needs.

O God, the Creator and Preserver of all, we pray for people of every race and in every kind of need: make your ways known on earth, your saving power among all nations.

Lord, in your mercy
Hear our prayer

We pray for your Church throughout

a thros June ein hesgob: llywia ac arwain
ni trwy dy Ysbryd Glân, fel y tywysir
pob Cristion i ffordd y gwirionedd a
chynnal y Ffydd mewn undeb ysbryd,
rhwymyn tangnefedd, ac uniondeb
bucedd.

Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.

Cyflwynwn i'th dadol ymgeledd y rhai
hynny sydd mewn pryder neu argyfwng
corff, meddwl neu ysbryd; cysura a
chynorthwya hwy yn eu hangen; dyro
iddynt amynedd yn eu dioddefiadau, a
dwg ddaioni o'u helbulon ...

Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.

Ymddiriedwn i'th ofal grasol bawb a fu
farw yn ffydd Crist, a molwn di am dy
holl ffyddloniaid, gan ymlawenhau gyda
hwy yng nghymundeb y saint.

Dad Trugarog,
derbyn y gweddiâu hyn
er mwyn dy Fab,
ein Gwardwr Iesu Grist. Amen.

Emyn 2

Dyma gariad fel y moroedd,
Tosturiaethau fel y lli:
Twysog Bywyd pur yn marw -
Marw i brynu'n bywyd ni.
Pwy all beidio â chofio amdano?
Pwy all beidio â thraethu'i glod?
Dyma gariad nad â'n angof
Tra fo nefoedd wen yn bod.

the world and for June our Bishop: guide
and govern us by your Holy Spirit, that
all Christian people may be led into the
way of truth, and hold the faith in unity
of spirit, in the bond of peace and in
righteousness of life.

Lord, in your mercy
Hear our prayer

We commend to your fatherly goodness
all who are anxious or distressed, in
body, mind, or spirit; comfort and
relieve them in their need; give them
patience in their sufferings, and bring
good out of their troubles.

Lord, in your mercy
Hear our prayer

We entrust to your gracious keeping all
who have died in the faith of Christ, and
we give you praise for all your faithful
ones with whom we rejoice in the
communion of saints.

Merciful Father,
accept these prayers
for the sake of your Son,
our Saviour Jesus Christ. Amen.

Hymn 2

Here is love, vast as the ocean,
Loving kindness as the flood,
When the Prince of Life, our Ransom,
Shed for us His precious blood.
Who His love will not remember?
Who can cease to sing His praise?
He can never be forgotten,
Throughout Heav'n's eternal days.

Ar Galfaria yr ymrwygodd
Holl ffynhonnau'r dyfnder mawr;
Torrodd holl argaeau'r nefoedd
Oedd yn gyfain hyd yn awr:
Gras â chariad megis dilyw
Yn ymdywallt ymâ 'nghyd,
A chyfiawnder pur â heddwch
Yn cusanu euog fyd.

William Rees (Gwilym Hiraethog) 1802-83

Ôl Gymun

Dduw tosturi, rhoddaist heibio ein
pechodau yn y cymun hwn gan roi i ni
dy iachâd: caniatâ i ni a wneir yn gyfan
yng Nghrist ddwyn yr un iachâd i'r byd
drylliedig hwn, yn enw Iesu Grist ein
Harglwydd. **Amen.**

Emyn 3

Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd
Wrthrych teilwng o'm holl fryd;
Er o ran, yr wy'n ei 'nabod
Ef uwchlaw holl wrthrychau'r byd:
Hyfryd fore
Caf ei weled fel y mae.

Rhosyn Saron yw ei enw,
Gwyn a gwridog, teg ei bryd;
Ar ddeng mil y mae'n rhagori
O wrthrychau penna'r byd:
Ffrind pechadur,
Dyma'i beilat ar y môr.

Beth sy imi mwy a wnelwyf
Ag eilunod gwael y llawr?
Tystio'r wyf nad yw eu cwmni
I'w cystadlu â'm Iesu mawr:
O am aros
Yn ei gariad ddyddiau f'oes.

Ann Griffiths 1776-1805

On the mount of crucifixion,
Fountains opened deep and wide;
Through the floodgates of God's mercy
Flowed a vast and gracious tide.
Grace and love, like mighty rivers,
Poured incessant from above,
And Heav'n's peace and perfect justice
Kissed a guilty world in love.

1900 William Edwards 1848-1929

Post Communion Prayer

God of compassion, in this eucharist you
have set aside our sins and given us your
healing: grant that we who are made
whole in Christ may bring that healing to
this broken world, in the name of Jesus
Christ our Lord. **Amen.**

Hymn 3

There he stands among the myrtles,
Worthiest object of my love;
Yet in part I know his glory
Towers all earthly things above;
One glad morning
I shall see him as he is.

He's the beautiful Rose of Sharon,
White and ruddy, fair to see;
Excellent above ten thousand
Of the world's prime glories he.
Friend of sinners.
Here's their pilot on the deep.

What have I to do henceforward
With vain idols of this earth?
Nothing can I find among them
To compete with his high worth.
Be my dwelling
In his love through all my days.

Tr. AH Hodges